

## Y GYFARWYDDIAETH DYSGU A SGILIAU Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned

Ymgynghoriad ar y cynnig i drawsnewid addysg arbennig yn y  
Fro trwy:

- sefydlu canolfan adnoddau arbenigol yn ysgol gynradd Gladstone fel lloeren i Ysgol Y Deri o fis Medi 2021;
- dirwyn Y Daith i ben a sefydlu Canolfan Dysgu a Lles newydd dan reolaeth Ysgol Y Deri o fis Medi 2021; a
- chodi adeilad newydd ar gyfer disgyblion y Ganolfan Dysgu a Lles ar safle Depo Court Road yn y Barri o fis Ionawr 2023.



Gellir trefnu bod y ddogfen hon ar gael mewn Braille ac mewn ieithoedd cymunedol eraill os oes angen. Cysylltwch â ni ar 01446 700111 neu [21stcenturyschools@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:21stcenturyschools@valeofglamorgan.gov.uk) i drefnu hyn a/neu i gyflwyno unrhyw ymholiadau.

# Cynnwys

Cyflwyniad .....	3
Y Cyd-destun Cenedlaethol .....	3
Y Cyd-destun Polisi Lleol .....	3
Heriau Cyfredol .....	4
Proffil y Gymuned .....	5
Asesiad o'r Effaith .....	6
Crynodeb Sgorio.....	12
Casgliadau .....	12

## Cyflwyniad

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn ymrwymedig i sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn y Fro'n cael pob cyfle i gyflawni'r deilliannau gorau posibl. Er mwyn gwireddu'r uchelgais hwn mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau bod ein hysgolion yn dal i fod yn gynaliadwy, eu bod yn adlewyrchu anghenion ein cymunedau lleol, a'u bod wedi'u hofferu â'r amgylcheddau dysgu gorau posibl.

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i sicrhau bod ymgynghoriadau'n ystyrlon, yn berthnasol ac yn briodol i'r cymunedau sydd dan sylw, ac mae gan y Cyngor ddyletswydd gofal i sicrhau bod cynigion yn eglur, yn dryloyw, ac yn adlewyrchu'r rhai yr effeithir arnynt. Mae hon yn weledigaeth na ellir ond ei gwireddu trwy weithio mewn partneriaeth gydag ysgolion, llywodraethwyr, rhieni a'r cymunedau ehangach yr ydym ni i gyd yn eu gwasanaethu.

Mae'r cynnig yn un i drawsnewid addysg arbennig trwy;

- sefydlu canolfan adnoddau arbenigol yn ysgol gynradd Gladstone fel lloeren i Ysgol Y Deri (YYD) o fis Medi 2021;
- dirwyn Y Daith i ben a sefydlu Canolfan Dysgu a Lles (CDaLI) newydd dan reolaeth Ysgol Y Deri (YYD) o fis Medi 2021; a
- chodi adeilad newydd ar gyfer disgyblion y Ganolfan Dysgu a Lles (CDaLI) ar safle Depo Court Road yn y Barri o fis Ionawr 2023.

Ystyrir y cynnig hwn dan adran 2.3 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018) a Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli a.y.b.) (Cymru) 2014.

## Y Cyd-destun Cenedlaethol

Y canllawiau statudol allweddol i awdurdodau allweddol wrth ddatblygu cynigion statudol ar gyfer newidiadau i drefniadaeth ysgolion yw adran 42 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Wrth ystyried cynigion rhaid i'r Cyngor ystyried yr effaith ar y gymuned leol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac mewn ardaloedd a ddynodwyd ar gyfer rhaglenni Cymunedau yn Gyntaf neu raglenni sy'n olynwyr iddynt.

## Y Cyd-destun Polisi Lleol

Gan adlewyrchu'r polisi cenedlaethol a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'r Cyngor wedi ymrwymo fel rhan o'r Cynllun Corfforaethol 2020-25 i wireddu'r weledigaeth ganlynol – **'Gweithio gyda'n gilydd ar gyfer dyfodol disgleiriach'**.

Mae Bro Morgannwg yn ymrwymedig i gyflawni'r amcan 'cefnogi dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy' gan godi safonau cyflawniad ar y cyfan trwy foderneiddio addysg yn y Fro i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael addysg o'r radd flaenaf.

Er mwyn cyflawni hyn, rydym ni'n credu ei bod yn bwysig ein bod yn cefnogi deilliannau dysgu ac addysgu trwy ddarparu adeiladau modern ac addas i'w diben sy'n diwallu anghenion addysg yr oes fodern. Mae angen i ysgolion allu darparu'r profiad dysgu gorau posibl i wneud yn siŵr bod y cyfleoedd gorau ar gael i blant a phobl ifanc a'u bod yn gallu cyflawni eu llawn botensial.

## Heriau Cyfredol

Byddai'r cynnig yn mynd i'r afael â nifer o heriau a byddai'n cyflawni'r canlynol:

- Mynd i'r afael â chyflwr ac addasrwydd adeiladau presennol a ddefnyddir ar hyn o bryd gan Y Daith.
- Lleihau costau cludiant o ganlyniad i'r ffaith bod y Ganolfan Dysgu a Lles mewn lleoliad mwy canolog ym Mro Morgannwg.
- Darparu amgylcheddau dysgu arloesol a chreadigol sy'n gallu addasu i newid ac a fydd yn herio ac yn cynorthwyo plant i gyrraedd eu llawn botensial.
- Cynyddu lefel y mynediad a rhyngweithio cymunedol trwy ddefnyddio cyfleusterau addysgol yr ysgol gan ateb anghenion yr ysgol ar yr un pryd.
- Darparu adeiladau addas ar gyfer disgyblion ym mhob grŵp oedran, gan felly ddileu'r angen i weithredu darpariaeth ar safle rhanedig.
- Sicrhau darpariaeth yn y Fro ar gyfer niferoedd mwy o'n disgyblion sydd ag anghenion ICEM cymhleth yn y cyfnodau cynradd ac uwchradd o ran addysg.
- Cydnabyddir mai YYD yw'r sefydliad sydd â'r profiad a'r sgiliau i roi'r dull sy'n ystyriol o drawma ar waith yn y modd mwyaf effeithiol o fewn a ledled yr ALL. Gan hynny, byddai'r ffaith mai YYD sy'n cydlynu swyddogaeth y Ganolfan Dysgu a Lles a'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn golygu bod rhai o'n dysgwyr mwyaf agored i niwed yn cael y cymorth mwyaf effeithiol a'r ddarpariaeth anogaeth fwyaf effeithiol fel elfennau allweddol o'u haddysg.
- Byddai staff y Ganolfan Dysgu a Lles a'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn cael budd o'r profiadau datblygu proffesiynol parhaus mwyaf cyfoes ac effeithiol a gyrchir gan staff YYD.

- Mwy o gyfleoedd ar gyfer datblygu proffesiynol parhaus gyda staff y Ganolfan Dysgu a Lles a'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn rhan o Ysgol Y Deri.
- Cydnerthedd gwell o ganlyniad i ddull cydgysylltiedig a reolir gan Ysgol Y Deri.
- Ar hyn o bryd mae strwythur staffio Y Daith yn fach o ran maint a bydd bod yn rhan o endid mwy'n rhoi mwy o gydnerthedd o ran staffio.
- Bydd mynediad at rwydwaith ehangach YYD o adeiladau'n cynnig mwy o gyfle i sicrhau darpariaeth ar gyfer y dysgwyr hynny sy'n dioddef materion gorbryder ac iechyd meddwl aciwt. Ar hyn o bryd ni chynigir darpariaeth o'r fath gan Y Daith.
- Llai o ddibyniaeth ar ddarpariaeth gostus y tu allan i'r sir.

## Proffil y Gymuned

Mae 8 ysgol yn yr ardal o amgylch Court Road yn y Barri ar hyn o bryd:

Enw'r ysgol	Math	Iaith	Ystod oedran	Capasiti*	Pellter o safle Court Road (milltiroedd)
Parc Jenner	Cymunedol	Saesneg	3 – 11	216	0.1
Sain Helen	Catholig	Saesneg	3 – 11	308	0.4
Holton	Cymunedol	Saesneg	3 – 11	420	0.5
Tregatwg	Cymunedol	Saesneg	3 – 11	420	0.6
Oak Field	Cymunedol	Saesneg	3 – 11	420	0.7
Ysgol Gwaun Y Nant	Cymunedol	Cymraeg	3 – 11	420	0.7
Gladstone	Cymunedol	Saesneg	3 – 11	420	0.8
Ysgol Sant Curig	Cymunedol	Cymraeg	3 – 11	420	1

\*oedran ysgol statudol – h.y. nid yw'n cynnwys meithrin.

Mae Court Road wedi'i lleoli yn Ward Buttrills yn y Barri ym Mro Morgannwg. Cyn canol y 19eg ganrif, ardal wledig oedd Buttrills, a hithau'n cynnwys nifer o ffermydd. Cafodd yr ardal ei threfoli yn dilyn twf y diwydiant glo. Mae caeau chwarae Buttrills (a adwaenir fel The Butts) yn rhan uchaf yr ardal yn helaeth ac fe'u defnyddir ar gyfer gemau pêl-droed. I'r de ceir cyrtiau tenis Parc Gladstone, canolfan fowlio a Neuadd Goffa'r Barri.

Mae gan Ward Buttrills boblogaeth o 6,357 (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2019). Yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) 2019 mae Buttrills 2 yn safle 186 safle allan o 1909 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI) yng Nghymru, sy'n golygu ei bod yn y 10% o ardaloedd mwyaf amddifadus. Mae'n perthyn i'r 10-20% o ardaloedd mwyaf amddifadus o ran incwm, cyflogaeth, iechyd ac addysg. Mae'n perthyn i'r 30-50% o ardaloedd mwyaf amddifadus o ran mynediad at wasanaethau, diogelwch cymunedol ac amgylchedd ffisegol. Mae'n perthyn i'r 50% o ardaloedd lleiaf amddifadus o ran tai.

### **Anghenion Dysgu Ychwanegol**

YYD sy'n goruchwylio swyddogaeth y Gwasanaeth Ymgysylltu (y Tîm Ymddygiad Cynradd gynt a letyir gan yr Awdurdod Lleol (ALI)), sy'n rhoi cymorth ac arweiniad i ysgolion cynradd ynghylch y strategaethau a'r dulliau sy'n ateb gofynion disgyblion ag anghenion ICEM yn y ffordd orau.

Mae The Loft a The Burrow yn Ysgol Gynradd Gladstone yn darparu cyfnodau o gymorth mewn lleoliad addysgol ar gyfer disgyblion yr effeithir arnynt gan drawma blaenorol a pharhaus. Cyn datblygu'r ddarpariaeth hon byddai wedi bod yn anodd diwallu anghenion y disgyblion hyn yn y Fro, a byddai wedi bod ar lawer angen lleoliadau mewn darpariaeth arbenigol y tu allan i'r sir.

Er mwyn sicrhau llwyddiant parhaus y ddarpariaeth hon a'i datblygiad yn y dyfodol byddai o fudd i'r ddarpariaeth hynod arbenigol hon ddod yn lloeren dan ymbarél YYD. Bydd hyn yn sicrhau bod staff sy'n gweithio yn y ddarpariaeth yn gallu bod yn rhan o dîm ehangach o arbenigwyr. Bydd hyn yn rhoi mwy o fynediad at gymorth, hyfforddiant a datblygiad proffesiynol a fydd o fudd i staff a phlant fel ei gilydd.

Mae Y Daith ar hyn o bryd yn darparu addysg ar gyfer oddeutu 80 o ddisgyblion. Mae'r nifer hwn yn amrywio trwy gydol y flwyddyn ac yn cynnwys disgyblion sy'n cael darpariaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS) a drefnir gan yr ALI.

Byddai'r cynnig hwn yn golygu bod niferoedd uwch o ddisgyblion ag ADY sy'n gysylltiedig ag ICEM yn gallu cael eu haddysgu yn y Fro mewn amgylchedd arbenigol. Bydd y system ysgol bwrpasol hon mewn sefyllfa well i ddiwallu eu hanghenion na'u darpariaeth bresennol. Bydd bod yn rhan o YYD yn sicrhau bod y dysgwyr hynny yn Y Daith ag anghenion ICEM cymhleth yn cael eu cefnogi gan rwydwaith ehangach o weithwyr proffesiynol sydd â sgiliau a phrofiad i ddiwallu anghenion dysgwyr o'r fath.

### **Asesiad o'r Effaith**

Mae'r adran hon o'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yn asesu'r effaith bosibl y gallai'r cynnig hwn ei chael ar y gymuned leol. Mae'r wybodaeth a ddadansoddir yn y broses hon yn cynrychioli ciplun o'r sefyllfa ar hyn o bryd.

Mae'r asesiad o'r effaith yn ddogfen sy'n esblygu a fydd yn dal i gael ei datblygu trwy gydol y broses statudol. Bydd adborth a geir yn ystod y cyfnod ymgynghori'n cael ei ddefnyddio i ddarparu rhagor o wybodaeth ar gyfer yr Aseiad o'r Effaith ar y Gymuned, a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet fel rhan o'r Adroddiad Ymgynghori.

Mae wyth mesur allweddol wedi cael eu hadnabod:

Cyf.	Mesur
CI1	Mae plant sy'n byw yn y dalgylch yn mynychu eu hysgol leol
CI2	Gwasanaethau a ddarperir gan yr ysgol ar gyfer y gymuned leol, gan gynnwys gweithgareddau allgyrsiol
CI3	Cyfleusterau cymunedol a ddefnyddir yn rheolaidd gan yr ysgol
CI4	Cyfleusterau a ddarperir gan yr ysgol a gweithgarwch a gyflawnir ar safle'r ysgol
CI5	Effaith ar fusnesau lleol
CI6	Effaith ar gyflogaeth leol
CI7	Effaith ar seilwaith lleol
CI8	Trefniadau cludiant

Aseswyd yr wyth mesur i ganfod unrhyw effeithiau negyddol neu gadarnhaol ar y gymuned leol, a chymhwyswyd sgôr a oedd yn amrywio o -3 i +3 yn seiliedig ar gydbwysedd y dystiolaeth a oedd ar gael.

Sgôr y Mesur	Aseiad o'r Mesur
-3	Dirywiad mawr
-2	Dirywiad cymedrol
-1	Dirywiad bach
0	Dim newid ar y cyfan
1	Gwelliant ach
2	Gwelliant Cymedrol
3	Gwelliant Mawr

## Effeithiau ar y Gymuned Leol

Cyf.	Mesur	Sgôr	Effaith y Cynnig
CI1	Mae plant sy'n byw yn y dalgylch yn mynychu eu hysgol leol	3	<p>Oherwydd y safle rhanedig a maint amrywiol ystafelloedd dosbarth, ni fu'n bosibl grwpio disgyblion CA3 a CA4 Y Daith i ddarparu parhad di-dor. Byddai'r adeilad newydd yn sicrhau bod hyn yn bosibl.</p> <p>Cyfeiriodd Estyn at y ffaith nad oes arlwy pum diwrnod yn ei lle yn Y Daith fel diffyg yn ystod yr arolygiad diweddaraf. Rhagwelir y bydd yr adeilad newydd yn ei gwneud yn bosibl darparu arlwy 5 diwrnod ar gyfer disgyblion sy'n arbennig o agored i niwed a chanddynt anghenion ICEM cymhleth.</p> <p>Trwy gynnig adleoli i leoliad mwy canolog yn y Barri byddai nifer fwy o ddisgyblion yn gallu cael mynediad at ddarpariaeth yn lleol yn y Ganolfan Dysgu a Lles. Er enghraifft, mae 60% o'r disgyblion presennol sy'n cael eu cludo â bysiau mini a thacsis i'r Uned Cyfeirio Disgyblion yn byw yn y Barri ar hyn o bryd.</p> <p>Er mwyn sicrhau llwyddiant parhaus y ddarpariaeth ICEM yn ysgol gynradd Gladstone a'i datblygiad yn y dyfodol, byddai o fudd i'r ddarpariaeth hynod arbenigol hon ddod yn lloeren dan ymbarél YYD. Bydd hyn yn sicrhau bod modd rhoi darpariaeth o fewn y sir.</p> <p>Felly, byddai'r cynnig hwn yn arwain at gyflenwad a galw mwy effeithlon ar gyfer lleoedd ysgol ADY yn y Fro.</p>
CI2	Gwasanaethau a ddarperir gan yr ysgol ar gyfer y gymuned leol, gan	2	Cynigir y byddai unrhyw wasanaethau cymunedol a ddarperir gan Y Daith ar hyn o bryd yn parhau. Fodd bynnag, cyfyngir ar y ddarpariaeth hon gan ei safleoedd cyfredol ac felly mae'n debygol y byddai nifer y gweithgareddau a'r math o weithgareddau a gynigir yn cael eu hehangu wrth symud i'r safle newydd arfaethedig. Byddai'r adeilad newydd arfaethedig



	gynnwys gweithgareddau allgyrsiol		<p>hefyd yn cynnwys cyfleusterau arbenigol i sefydlu cwricwlwm mwy amrywiol. Gallai hyn eto wella'r gwasanaethau a ddarperir gan yr ysgol ar gyfer y gymuned leol.</p> <p>Ni fyddai unrhyw ddarpariaeth gymunedol yn cael ei cholli yn ysgol gynradd Gladstone o ganlyniad i'r cynnig hwn.</p>
CI3	Cyfleusterau cymunedol a ddefnyddir yn rheolaidd gan yr ysgol	1	<p>Mae cyfleusterau niferus yn yr ardal o gwmpas safle Y Daith yn y Bont-faen, gan gynnwys eglwysi, gerddi ac adeiladau hanesyddol; fodd bynnag, oherwydd anghenion cymhleth disgyblion nid yw'r ysgol yn cael mynediad rheolaidd at y rhain.</p> <p>Mae safle arall Y Daith yn cael ei rhannu gyda Fferm Ymddiriedolaeth Amelia.</p> <p>Ceir effaith gadarnhaol bosibl ar fynediad at gyfleusterau cymunedol o ganlyniad i'r cynnig hwn gan bod y Barri'n cynnig ystod ehangach o gyfleusterau, gan gynnwys mwy o gyfleusterau hamdden a chwaraeon. Penderfyniad i reolwyr YYD fyddai sut i gael mynediad at y cyfleusterau hyn. Byddai'r adeilad newydd arfaethedig drws nesaf i Stadiwm Parc Jenner sy'n darparu cyfleusterau chwaraeon ardderchog y gallai'r ysgol eu defnyddio. Ceir rhandir ar y safle arfaethedig hefyd.</p> <p>Ni fyddai ysgol gynradd Gladstone yn colli mynediad at gyfleusterau cymunedol o gwbl o ganlyniad i'r cynnig hwn.</p>
CI4	Cyfleusterau a ddarperir gan yr ysgol a gweithgarwch a gyflawnir ar safle'r ysgol	1	<p>Un o elfennau allweddol Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yw darparu cyfleusterau cymunedol. Byddai'r cynnig yn cynnwys creu cyfleusterau newydd o'r radd flaenaf y byddai'r gymuned yn gallu eu llogi; megis caeau chwaraeon ac ystafelloedd cyfarfod.</p> <p>Ceir potensial i gynyddu mynediad cymunedol at gyfleusterau, megis ystafelloedd cyfarfod ac ardaloedd arbenigol. Cyfrifoldeb yr ysgol fyddai rheoli hyn gyda gofynion diogelu.</p>

CI5	Effaith ar fusnesau lleol	-1	<p>Efallai y byddai effaith negyddol ar Fferm Ymddiriedolaeth Amelia o ganlyniad i symudiad arfaethedig Y Daith i'r Barri. Y rheswm dros hyn yw colli incwm rhent gan bod yr adeiladau presennol yn cael eu prydlesu gan y Cyngor.</p> <p>Efallai y bydd effaith gadarnhaol ar fusnesau yn y Barri, ond bydd hyn yn dibynnu ar y trefniadau o ran disgyblion yn gadael y safle (e.e. i gael bwyd amser cinio) a meithrin perthnasoedd â busnesau lleol yn y Barri. Mae YYD wedi meithrin perthnasoedd yn flaenorol â busnesau lleol ym Mhenarth, er enghraifft trwy helpu i gysylltu disgyblion â lleoliadau profiad gwaith, felly mae'n debygol y byddai'r dull hwn yn cael ei estyn gan y tîm rheoli yn y Barri.</p> <p>Ni fyddai unrhyw effeithiau ar fusnesau lleol o ganlyniad i'r cynnig hwn mewn perthynas ag ysgol gynradd Gladstone.</p> <p>Felly, ar y cyfan, mae'r Cyngor wedi penderfynu y byddai effaith negyddol fach ar fusnesau lleol o ganlyniad i golli incwm yn Fferm Ymddiriedolaeth Amelia.</p>
CI6	Effaith ar gyflogaeth leol	1	<p>Gallai'r cynnig hwn arwain at gynnydd mewn cyfleoedd cyflogaeth arbenigol yn y Ganolfan Dysgu a Lles a'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol.</p> <p>Byddai cyfleoedd datblygu proffesiynol i staff sy'n gweithio yn yr UCD ac ysgol gynradd Gladstone ar hyn o bryd o ganlyniad i fod yn rhan o Ysgol Y Deri.</p>
CI7	Effaith ar seilwaith lleol	1	<p>Mae'r ffordd o amgylch depo Court Road yn cael ei defnyddio'n fynych, ond mae hyn yn rhannol oherwydd y traffig sy'n gysylltiedig â gwaith y depo. Felly, gallai'r cynnig hwn helpu i reoli traffig o amgylch y safle gan y byddai nifer y cerbydau sy'n teithio i mewn ac allan yn debyg neu ychydig yn is.</p> <p>Byddai asesiad trafndiaeth llawn yn cael ei gynnal fel rhan o'r broses ddylunio ar gyfer yr</p>

			<p>adeilad ysgol newydd. Byddai hyn yn asesu'r effaith ar y seilwaith lleol ac yn cynnwys dadansoddiad llwybr ysgubedig i sicrhau y cydymffurfir â'r ddeddfwriaeth gyfredol ar hygyrchedd ar gyfer yr holl wasanaethau brys. Byddai hyn hefyd yn cynnwys asesiad o lwybrau cerdded diogel. Byddai'r asesiad trafndiaeth yn cael ei ddefnyddio fel rhan o'r broses ddylunio i liniaru unrhyw effeithiau negyddol a ganfuwyd.</p> <p>Mae cyfle trwy'r broses dylunio ac adeiladu i wella llwybrau cysylltiol i wella diogelwch y llwybrau a mwynhad ohonynt. Byddai dyluniadau'n amodol ar y broses gynllunio ffurfiol sy'n cynnwys ymgynghoriad statudol â thrigolion lleol.</p> <p>Nid oes unrhyw oblygiadau o ran y seilwaith lleol sy'n gysylltiedig ag ysgol gynradd Gladstone o ganlyniad i'r cynnig hwn.</p>
CI8	Trefniadau cludiant	2	<p>Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i ddarparu cludiant am ddim i'r ysgol ar gyfer disgyblion o oed ysgol statudol sy'n byw y tu hwnt i bellter cerdded o'r ysgol briodol agosaf, yn unol â'r 'Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008'.</p> <p><i>"Y diffiniad o hyn yw mwy na 2 filltir i'r ysgol addas agosaf ar gyfer Disgyblion Cynradd a mwy na 3 milltir ar gyfer Disgyblion Uwchradd. Caiff pellterau eu mesur yn ôl y llwybr cerdded agosaf sydd ar gael."</i></p> <p>Gwasanaethir Y Daith gan 2 fws mini a 6 thacsi ar hyn o bryd. Byddai'r cynnig hwn yn arwain at ostyngiad ar y cyfan mewn teithio gan ddysgwyr. Y rheswm dros hyn yw bod y lleoliad arfaethedig yn fwy canolog ym Mro Morgannwg. Mae 60% o'r disgyblion presennol sy'n cael eu cludo i'r UCD yn byw yn y Barri ar hyn o bryd. Byddai'r siwrneiau hyn yn cael eu lleihau'n sylweddol gan y cynnig.</p> <p>Nid oes unrhyw oblygiadau o ran cludiant mewn perthynas ag ysgol gynradd Gladstone o ganlyniad i'r cynnig hwn.</p>

## Crynodeb Sgorio

Cyf.	Y Gymuned Leol
CI1	3
CI2	2
CI3	1
CI4	1
CI5	-1
CI6	1
CI7	1
CI8	2
Sgôr Cyfartalog	1.25

## Casgliadau

Mae'r asesiad o'r effaith yn nodi y byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol ar draws 7 o'r 8 mesur a aseswyd. Byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith negyddol ar y gymuned leol mewn 1 o'r 8 mesur a aseswyd. Ar y cyfan, byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol.

Er y nodir y byddai effaith negyddol ar Fferm Ymddiriedolaeth Amelia trwy golli incwm, nid yw'r adeiladau presennol yn addas i ddiwallu anghenion dysgwyr yn y ffordd orau.

Byddai'r cynnig yn ei gwneud yn bosibl i'r Ganolfan Dysgu a Lles newydd a'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol (Gladstone) ddarparu amgylcheddau dysgu arloesol a chreadigol sy'n gallu addasu i newid ac a fyddai'n herio ac yn cynorthwyo plant i gyrraedd eu llawn botensial. Byddai'r cynnig yn cynyddu lefel y mynediad a rhyngweithio cymunedol trwy gyfleusterau addysgol yr ysgol gan ddiwallu anghenion cymhleth disgyblion ar yr un pryd.

Byddai angen i oblygiadau o ran cludiant gael eu hystyried yn ofalus yn ystod y broses o ddylunio'r ysgol newydd i gyfyngu ar yr effaith y byddai'r ysgol yn ei chael ar y seilwaith lleol. Fodd bynnag, byddai lleoli'r Ganolfan Dysgu a Lles yn ganolog ym Mro Morgannwg yn lleihau cludiant yn ôl ac ymlaen i'r ysgol yn sylweddol.

Casgliad yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yw y byddai'r cynnig yn diwallu anghenion y gymuned yn well i sicrhau cydbwysedd cynaliadwy rhwng y cyflenwad o leoedd mewn ysgolion a'r galw amdanynt.